

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Elwyn Bailey ddydd Sul diwethaf. Roedd Elwyn yn gymeriad unigryw, a bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yn yr eglwys yn Llansannan ar hyd y blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Eirwen, Gareth a Iona a gweddill y teulu yn eu galar a'u hiraeth. Nid dyma'r brofedigaeth gyntaf iddynt orfod ei hwynebu yn ystod y dyddiau diwethaf a medrwn ond gweddio y bydd Duw yn agos atynt fel teulu dros y diwrnodau a'r wythnosau nesaf.
- Wedi iddi dreulio rhai misoedd yn cael gofal yn yr ysbyty, da yw medru adrodd bod Elizabeth Jones (Llansannan) wedi cael dod adref erbyn hyn. Anfonwn ein cofion ati ac at bawb arall yn yr ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Maldwyn Jones (Plas Eleri); Mr Selwyn Davies, Mrs Menna Owen a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); Mrs Eirian Davies (Canterbury House) a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau i Iwan a Menna Jones (Groes) ar enedigaeth mab, Gethin Wyn, brawd bach i Gruffydd Elystan. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.

I ddod

- **“AWN I FETHLEM”** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 15fed am 7.30.
- **GWASANAETH NADOLIG I'R TEULU YNG NGHAPEL SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** dydd Sul Rhagfyr 21ain am 11.00 a Pharti Nadolig i bawb yn y Neuadd Goffa i ddilyn.
- **GWASANAETH CAROLAU UNDEBOL LLANNEYDD** nos Sul, Rhagfyr 21ain yn yr Eglwys am 6.30.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 9.30.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7^{fed} Rhagfyr 2014

Darlleniad y Dydd

Eseia 61:1-4

(BCND tud.677 / BCN: tud.617)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i dymor y Nadolig! Wrth i ni edrych ymlaen at y dathliadau, mae rhyfeddod yr hyn a ddigwyddodd ym Methlehem yn siŵr o lenwi'n calonnau unwaith eto. Mae gan yr Ysbryd Glân gymaint o ffyrdd i wneud genedigaeth Iesu yn werthfawr yn ein golwg. Rhoddwn le i'r Ysbryd wrth addoli heddiw er mwyn iddo ein harwain at Iesu 'a fu mewn gwaeledd' ond sydd bellach yn 'eistedd ar Ei orsedd fawr' yn Arglwydd yr Arglwyddi ac yn Frenin y brenhinoedd!

Un o fy hoff ffyrdd o baratoi at y Nadolig ydi darllen a myfyrio ar rai o'r geiriau yn yr Hen Destament sy'n cyfeirio ymlaen at Iesu. Efallai y byddwch yn cofio'r gyfres a gawsom ar enwau Iesu ac fel yr oedd pob un yn dweud rhywbeth arbennig wrthym am gymeriad a gwaith Iesu. Ystyr 'Crist' ydi 'un sydd wedi ei eninio'. Tywallt olew dros ben rhywun ydi hynny, a hynny fel arfer i ddynodi fod y person sy'n cael ei eninio yn cael ei neilltuo i swyddogaeth a gwaith arbennig ac yn derbyn yr awdurdod angenrheidiol i gyflawni'r gwaith hwnnw. Enghraifft o hyn ydi'r proffwyd Samuel yn eninio Dafydd i fod yn frenin.

Dwn i ddim sut bresantau Nadolig rydach chi yn hoffi eu derbyn ond fe fyddwn yn cael cymysgedd o rai defnyddiol a rhai fwy ffansi fel arfer. Cael rhai ymarferol ddefnyddiol sydd orau gen i – tebyg i sannau Rhodri Glyn (i'r rhai sy'n cofio'n ôl i'r cyfarfod Nadolig yng Nghefn Berain y llynedd!)

Yn y darlleniad heddiw cawn ein dysgu fod Iesu wedi ei eninio â'r Ysbryd Glân i gyflawni gwaith arbennig iawn. Mae'n rhodd defnyddiol i ni gan Dduw. Mae ei gariad yn gariad ymarferol sy'n cael dylanwad pellgyrhaeddol arnom. Mae Iesu'n dod i'n gwaredu! Dyma ystyr ei enw arall, 'Iesu'. Ein gwaredu oddi wrth ein pechodau! Mae dyfodiad Iesu Grist – yr un sydd wedi ei eninio i'r gwaith o'n gwaredu – yn newyddion da iawn i ni felly, ac yn iachâd i bawb sy'n credu ynddo. Y tlodion sy'n clywed y newyddion da a'r rhai 'drylliedig o galon' sy'n cael eu hiacháu. Wrth i ni ddarllen yr Efengylau gwelwn pa mor wir ydi hyn wrth i ni ystyried y ffordd roedd Iesu'n siarad hefo pobl am gariad ei Dad nefol, fel yr oedd yn iacháu llawer, ac fel yr oedd yn rhwymo calonnau trist.

Wrth wynebu'r Nadolig â'i holl gymhlethdod o emosiynau a dyheadau, gweddiwn am gael adnabod grym Iesu yn ein gwaredu ac yn iacháu'n calon. Fe ydi'r un a gafodd yr awdurdod i wneud y gwahaniaeth mwyaf yn ein bywyd. Iesu ydi Eneiniog Duw, ein Brawd a'n Ceidwad cry'. Diolch iddo.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 1:67-80 (BCND tud.62 / BCN: tud.57)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin a Rhodri yn arwain adolygiad o'r gyfres ddiwethaf ar rannu'n ffydd.
- Llun
- **Cyfarfod Blynnyddol Blaenoriaid a Diaconiaid y Fro** yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- Mercher
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Iau
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sul nesaf

Gwasanaeth Carolau a Phlygain Eglwys Bro Aled



Nos Sul Rhagfyr 14eg
6 o'r gloch
Capel Coffa Henry Rees,
Llansannan

Paned a mins peis i ddilyn
Croeso cynnes i bawb!

"yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da o lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl"

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. (Sylwch ar y newid). Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Mawrth
- Cynhelir **Cymdeithas Chwiorydd Groes, Peniel a Nantglyn** ym Mheniel am 7.30 yng nghwmni Llor Radford, Llaeth y Llan.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth
- Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Eryl ac Elliw Williams yn cyflwyno Ifan Glyn i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa Sul y Beibl am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yno am 10.45.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.